

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Y diweddaraf am gaffael cyhoeddus

Cefndir

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o safbwynt yr ymrwymiadau a wnaed yn Natganiad Polisi Caffael Cymru, a lansiwyd gennyf yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2012. Mae'n cynnwys crynodeb o'r cyfleoedd a gynigir gan y rheoliadau newydd, sef Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a'r Gorchymyn Dynodi a ddisgwylir. Mae hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen Budd i'r Gymuned ynghyd ag adroddiad am gynnydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol hyd yma a'i gynlluniau presennol.

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a'r Gorchymyn Dynodi a ddisgwylir

2. Daeth Cyfarwydddeb Gaffael newydd gan yr UE i rym ym mis Ebrill 2014 ar ôl cyfnod o adolygu a moderneiddio pan fu Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU. Cafodd y Gyfarwydddeb newydd ei throsi gan Lywodraeth y DU cyn y terfyn amser o ddwy flynedd er mwyn gwireddu'r manteision yn gynt; cafodd y rheolau newydd eu gweithredu drwy'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus ar 26 Chwefror 2015.
3. Mae'r Rheoliadau newydd i'w croesawu a byddant yn helpu i gryfhau'r gwaith o fabwysiadu polisi Llywodraeth Cymru. Maent yn symleiddio'r rheolau ac yn sicrhau bod gwaith caffael yn digwydd yn gynt a'i fod yn llai costus i gyflenwyr a'r sector cyhoeddus. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys y canlynol:
 - a. Prosesau caffael symlach drwy ddyletswydd newydd, sef y ddyletswydd 'cymesuredd', a newidiadau megis galluogi cyflenwyr i hunanardystio eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer dewis, gan wirio'r cynigydd llwyddiannus yn unig wedyn. Mae'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr wedi cael ei diweddarau er mwyn ystyried y dull gweithredu newydd hwn.
 - b. Mynediad gwell ar gyfer busnesau bach a chanolig drwy, er enghraifft, reolau newydd sy'n sicrhau bod contractau mwy o faint yn cael eu rhannu'n lotiau oni ellir cyfiawnhau peidio â gwneud hynny, a bod gofynion ynghylch trosiant yn cael eu cyfyngu i ddwywaith gwerth y contract.
 - c. Gweithdrefnau wedi'u diweddarau sy'n caniatáu mwy o drafod a hyblygrwydd, a Phartneriaeth Arloesi newydd sy'n galluogi'r sector cyhoeddus i ddefnyddio byd busnes i ddatblygu a chyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith arloesol.
 - ch. Estyniad i'r darpariaethau ynghylch Contractau a Neilltuir, sy'n caniatáu i gontractau gael eu neilltuo i gwmnïau y mae o leiaf 30% o'u gweithlu yn bobl dan anfantais, ac sydd hefyd yn cyflogi pobl ag anableddau. Bydd hynny'n

rhoi mwy o gyfle i contractio â chwmnïau yn y trydydd sector a busnesau a gynorthwyr yng Nghymru.

4. Gan gydnabod y cynnydd ardderchog a wnaed eisoes yng Nghymru, cadarnhaodd Llywodraeth y DU na fydd Rhan 4 y Rheoliadau yn berthnasol i gyrff yng Nghymru y mae eu swyddogaethau wedi'u datganoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i Gymru. Mae hynny'n golygu nad yw'n ofynnol i'r rhan fwyaf o gyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â'r gofynion ynghylch cyn-gymhwyso a hysbysebu contractau yn Lloegr, ac y gallant barhau i ddefnyddio'r Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr a gwefan GwerthwchiGymru i hysbysebu contractau.
5. Mae swyddogion wrthi'n trafod â Swyddfa'r Cabinet er mwyn ceisio sicrhau cytundeb a fydd yn galluogi cyrff nad ydynt wedi'u datganoli i ddewis mabwysiadu elfennau o bolisi caffael Cymru os gallant ddangos y bydd hynny'n sicrhau gwerth ychwanegol, er enghraifft drwy ddefnyddio dull y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr i ddewis cyflenwyr. Mae'r drafodaeth honno hefyd yn cynnwys ceisio sicrhau cytundeb a fydd yn galluogi cyrff nad ydynt wedi'u datganoli i ddewis defnyddio contractau a ddyfarnwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol os gellir dangos budd ychwanegol o'r fath.
6. Ar 27 Mawrth ysgrifennodd Francis Maude ataf i gadarnhau cytundeb mewn egwyddor â dynodiad cyffredinol ynghylch caffael ar gyfer Cymru yn unol â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU. Mae'r dynodiad cyffredinol yn amodol yn awr ar gael cytundeb y Cyfrin Gyngor ym mis Gorffennaf.
7. Ar hyn o bryd rwy'n ystyried cyfleoedd cynnar i gryfhau'r gwaith o weithredu polisi caffael ar draws Cymru, a fydd yn deillio o sicrhau'r dynodiad cyffredinol. Un maes posibl fydd yr opsiwn i gyhoeddi Nodiadau Polisi Caffael sy'n ymwneud ag egwyddorion polisi allweddol, er enghraifft Budd i'r Gymuned, sydd â statws rheoleiddiol.
8. Yn y Datganiad Llafar a ddisgwyllir gennyf ar 16 Mehefin, byddaf yn lansio Datganiad Polisi Caffael Cymru sydd wedi'i ddiweddarau a byddaf yn amlinellu'r cyfleoedd sydd i Lywodraeth Cymru reoleiddio er mwyn cryfhau polisi caffael.

Budd i'r Gymuned

9. Gwnaed cynnydd da o safbwynt sicrhau bod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned yn cael ei fabwysiadu'n fwy helaeth ar draws y sector cyhoeddus, a cheir tystiolaeth sy'n awgrymu bod Cymru ar y blaen i weddill y DU, yn enwedig o safbwynt datblygu dull unfurf o fesur canlyniadau.

10. Ers 2013, mae 362 (9%) o'r holl¹ contractau a hysbysebwyd drwy Gwerthwchi Gymru wedi nodi bod y dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned yn cael ei gynnwys yn y tendr. O'r wybodaeth a gyflwynwyd drwy'r Adnodd Mesur, rydym yn gwybod bod y 74 prosiect cyntaf a fesurwyd, a oedd yn werth cyfanswm o £658 miliwn, wedi arwain at 771 o gyfleoedd gwaith a thros 21,000 o wythnosau o hyfforddiant ac wedi arwain at sicrhau bod 84% o'r gwariant yn cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru ar fusnes a chyflogau.
11. Mae Budd i'r Gymuned wedi'i ymgorffori'n dda mewn nifer o raglenni o bwys a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, megis Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, Lleuedd Llewyrchus Llawn Addewid a Safon Ansawdd Tai Cymru, lle mae'r gofyniad i ddefnyddio Budd i'r Gymuned yn amod ariannu clir. Bydd monitro canlyniadau'n agos yn sicrhau y gwiredir potensial y polisi i ddarparu cyfleoedd o bwys o ran swyddi a thwf ledled Cymru.
12. Ym mis Chwefror eleni, cefnogodd fy nghydweithwyr yn y Cabinet fy nghais i gynyddu'r defnydd a wneir o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar Fudd i'r Gymuned mewn prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Rwy'n sefydlu ac yn cadeirio Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar draws Llywodraeth Cymru, a fydd yn llunio cyfres arfaethedig o brosiectau caffael a rhaglenni grantiau a fydd yn sicrhau Budd i'r Gymuned. Bydd y gwaith hwn yn darparu gwybodaeth gywir a chynnar i contractwyr er mwyn caniatáu amser i gyflenwyr, y trydydd sector a mudiadau gwirfoddol allu cyflwyno cynigion, a bydd yn ein helpu ni i fonitro llwyddiant ein polisi.
13. Mae sawl adnodd newydd ar gael i gynorthwyo'r sector cyhoeddus. Mae'r canllawiau wedi'u diweddarau a'u diwygio i adlewyrchu blaenoriaethau newydd o ran polisi, ac erbyn hyn mae'r Adnodd Mesur diwygiedig yn monitro cyfleoedd i bobl o aelwydydd heb waith.
14. Mae'r canllawiau wrthi'n cael eu datblygu ymhellach er mwyn ystyried y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus newydd a'r cyfleoedd newydd a ddarperir i neilltuo contractau i sefydliadau y mae 30% o'u gweithlu yn bobl dan anfantais.

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol:

15. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn sicrhau bod egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru yn cael eu hymgorffori yn ei holl brosesau caffael, a lle bônt yn berthnasol caiff cymalau Budd i'r Gymuned eu cynnwys ym mhob contract a fframwaith a bennir gan y Gwasanaeth.

¹ Bydd prosesau monitro gwell a fydd ar gael drwy Gwerthwchi Gymru o fis Mehefin 2015 ymlaen yn darparu adroddiadau manwl ynghylch nifer y contractau dros £2 filiwn a hysbysebiri a'r graddau y caiff cymalau ynghylch Budd i'r Gymuned eu cynnwys.

16. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Chwefror 2015, mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi cofnodi lefelau uwch na'r disgwyl o arbedion sy'n rhyddhau arian, ac ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru sicrhawyd £6.117 miliwn o arbedion a oedd yn rhyddhau arian o gymharu â tharged cyffredinol o £4.245 miliwn ar gyfer arbedion ym mlwyddyn ariannol 2014/15, a oedd yn cynnwys targed o £1.528 miliwn ar gyfer arbedion sy'n rhyddhau arian.

17. Mae'r tabl isod yn dangos y contractau a'r fframweithiau y mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'u dyfarnu hyd yma, gwerth blynyddol pob un ohonynt a'r % o gyflenwyr o Gymru a busnesau bach a chanolig o Gymru sydd wedi cael lle ar bob un.

Teitl y Contract	Gwerth Blynyddol (£)	Y % sy'n gyflenwyr o Gymru	Y % sy'n fusnesau bach a chanolig o Gymru
Gwasanaethau Cyfieithu	£1.7 miliwn	100%	97%
Effeithlonrwydd Adnoddau	£4.7 miliwn	46.5%	38.9%
Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol	£11.8 miliwn	60%	53%
Ymgynghoriaeth Adeiladu	£13.5 miliwn	43%	40.5%
Trefniant Pontio ar gyfer Gwasanaethau Argraffu	£12 miliwn	71%	71%
Deunyddiau Ysgrifennu a Phapur Copiwyr (Lot 2)	£2.4 miliwn	0%	0%
Iechyd Galwedigaethol	£5.4 miliwn	75%	75%
Gweithwyr Asiantaeth	£67.5 miliwn	14%	14%
Tanwydd Hylif	£21.2 miliwn	40%	40%
Llogi Cerbydau	£6.8 miliwn	44%	33%

18. Mae gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyfres arfaethedig o contractau gwerth £1.1 biliwn yn barod ar gyfer eleni, a bydd y gyfres honno'n tyfu i gynnwys pob categori ac i fod â gwerth blynyddol o £2.2 biliwn yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16. Mae'r tabl isod yn dangos y contractau a'r fframweithiau y mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn bwriadu eu cyflwyno yn ystod y misoedd nesaf ynghyd â chyfanswm eu gwerth blynyddol yn ôl categori.

19. Mae'r gwaith o ddatblygu cynllun busnes ar fin dod i ben, a bydd y cynllun yn eiddo i Fwrdd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a bydd yn cyflawni'n unol ag amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn egluro'r amcanion y bydd y

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn eu cyflawni yn ystod y 4 blynedd nesaf a byddaf yn lansio'r cynllun ym mis Mehefin eleni.

Categori	Contract/Fframwaith	Amcan o ddyddiad dyfarnu'r contract	Amcan o'i werth blynyddol
Fflyd a Thrafnidiaeth	Cardiau Tanwydd	25/05/2015	£35.2 miliwn
	Teiars	03/08/2015	
	Cerbydau ar Brydles	21/09/2015	
Deunyddiau Adeiladu a Rheoli Cyfleusterau	Dodrefn	18/05/2015	£39.9 miliwn
	Gwasanaethau Glanhau a Gwasanaethau Porthor	15/06/2015	
	Deunyddiau Gwasanaethau Glanhau a Gwasanaethau Porthor	15/06/2015	
	Trydan, Gwresogi a Phlymio	28/09/2015	
Gwasanaethau Pobl a Chyfleustodau	Teithio a Llety	22/06/2015	£11 miliwn
	Buddion Staff	24/08/2015	
Gwasanaethau Proffesiynol	Gwasanaethau Cyfreithiol	01/06/2015	£80 miliwn
	Ymgynghoriaeth Adeiladu Cam 2	06/07/2015	
	Casglu Arian	03/08/2015	
	Ymgynghoriaeth TGCh	07/09/2015	
	Yswiriant	28/09/2015	
TGCh	Cynnyrch a Gwasanaethau TG	28/09/2015	£113.9 miliwn
	Systemau Telathrebu Symudol	11/05/2015	
	System Rheoli Llyfrgelloedd	29/06/2015	
	Systemau Telathrebu Sefydlog	07/09/2015	
	Gwasanaethau Sicrhau Gwybodaeth	28/09/2015	
Gwasanaethau Corfforaethol a Chymorth Busnes	Fframwaith Argraffu Cymru Gyfan	10/08/2015	£8.6 miliwn
	Cyfarpar Diogelu Personol	24/08/2015	

20. Mae rhai enghreifftiau o'r contractau a bennwyd mor belled gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cynnwys fframwaith ar gyfer lechyd Galwedigaethol a Gwasanaethau Cysylltiedig. Cafodd 20 o gyflenwyr le ar y fframwaith. Mae 15 o'r 20 o gyflenwyr yn fusnesau bach a chanolig o Gymru (75%). Rhagwelir y bydd yr arbedion ar draws y fframwaith yn cyfateb i oddeutu 4% o gymharu â'r fframwaith blaenorol, er bod potensial i gynyddu'r arbedion hynny drwy ragor o gystadlaethau cydweithredol a mwy o waith ymgysylltu. Disgwylir gostyngiad o 50% ar unwaith yng nghyswllt Lot 2 – Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

21. Ym mis Chwefror dyfarnodd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol fframwaith ar gyfer Deunyddiau Adeiladu Cyffredinol, a oedd yn werth dros £11 miliwn y flwyddyn. Roedd dros 60% o'r cyflenwyr a gafodd le ar y fframwaith yn dod o Gymru ac roedd dros 53% o'r rheini'n fusnesau bach a chanolig. Mae gan bob un o'r cyflenwyr eraill ddepos yng Nghymru a byddwn yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddarparu cyfleoedd o ran gwaith a hyfforddiant yn lleol.
22. Y llynedd bu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cydweithio â Dr Peter Bonfield i ddatblygu Cynllun Bwyd Prydain, gan dynnu sylw at y gwaith caffael ardderchog a wneir ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae strategaeth fwyd drosfwaol yn cael ei datblygu lle mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes datblygu busnes i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd lle bydd datblygu'r farchnad yn helpu i sicrhau cymaint o ddatblygu economaidd ag sy'n bosibl o waith caffael bwyd yng Nghymru.